

Sunday the 16th of August 2026
+ The 11th Sunday after Trinity

The collect of the day

O God, you declare your almighty power most chiefly in showing mercy and pity : mercifully grant to us such a measure of your grace, that we, running the way of your commandments, may receive your gracious promises, and be made partakers of your heavenly treasure; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN.

The reading from Isaiah
(56.1, 6-8)

Thus says the Lord: Maintain justice, and do what is right, for soon my salvation will come, and my deliverance be revealed.

And the foreigners who join themselves to the Lord, to minister to him, to love the name of the Lord, and to be his servants, all who keep the sabbath, and do not profane it, and hold fast my covenant — these I will bring to my holy mountain, and make them joyful in my house of prayer; their burnt-offerings and their sacrifices will be accepted on my altar; for my house shall be called a house of prayer for all peoples. Thus says the Lord God, who gathers the outcasts of Israel, I will gather others to them besides those already gathered.

The Psalm 67

God be gracious to / us and /
bless us: and make his / face to /
shine up/on us, That your way may
be / known upon / earth: your
saving / power a/mong all / nations.
Let the peoples / praise you, O /
God: let / all the / peoples / praise
you.

O let the nations re/joyce and be /
glad: for you will judge the peoples
righteously * and govern the /
nations / upon / earth. Let the
peoples / praise you, O / God: let /
all the / peoples / praise you.

Then shall the earth bring / forth
her / increase: and God, our / own /
God, will / bless us. God / will / bless
us: and all the / ends of the / earth
shall / fear him.

The reading from Romans
(11.1-2a, 29-32)

I ask, then, has God rejected his people? By no means! I myself am an Israelite, a descendant of Abraham, a member of the tribe of Benjamin. God has not rejected his people whom he foreknew.

For the gifts and the calling of God are irrevocable. Just as you were once disobedient to God but have now received mercy because of their disobedience, so they have now been disobedient in order that, by the mercy shown to you, they too may now receive mercy. For God has imprisoned all in

disobedience so that he may be merciful to all.

The reading from the Gospel
according to Saint Matthew
(15.{10-20} 21-28)

[Then Jesus called the crowd to him and said to them, 'Listen and understand: it is not what goes into the mouth that defiles a person, but it is what comes out of the mouth that defiles.'

Then the disciples approached and said to him, 'Do you know that the Pharisees took offence when they heard what you said?'

He answered, 'Every plant that my heavenly Father has not planted will be uprooted. Let them alone; they are blind guides of the blind. And if one blind person guides another, both will fall into a pit.'

But Peter said to him, 'Explain this parable to us.'

Then he said, 'Are you also still without understanding? Do you not see that whatever goes into the mouth enters the stomach, and goes out into the sewer? But what comes out of the mouth proceeds from the heart, and this is what defiles. For out of the heart come evil intentions, murder, adultery, fornication, theft, false witness, slander. These are what defile a person, but to eat with unwashed hands does not defile.'

Jesus left that place and went away to the district of Tyre and

Sidon. Just then a Canaanite woman from that region came out and started shouting, 'Have mercy on me, Lord, Son of David; my daughter is tormented by a demon.' But he did not answer her at all.

And his disciples came and urged him, saying, 'Send her away, for she keeps shouting after us.'

He answered, 'I was sent only to the lost sheep of the house of Israel.'

But she came and knelt before him, saying, 'Lord, help me.'

He answered, 'It is not fair to take the children's food and throw it to the dogs.'

She said, 'Yes, Lord, yet even the dogs eat the crumbs that fall from their masters' table.'

Then Jesus answered her, 'Woman, great is your faith! Let it be done for you as you wish.' And her daughter was healed instantly.

The collect following communion

Lord of all mercy, we your faithful people have celebrated that one true sacrifice which takes away our sins and brings pardon and peace : by our communion keep us firm on the foundation of the gospel and preserve us from all sin; through Jesus Christ our Lord. AMEN

Dydd Sul 16^{eg} Awst 2026
+11^{eg} Sul wedi'r Drindod

Colect y dydd

O Dduw, rwyt yn amlygu dy allu anfeidrol yn bennaf trwy ddangos trugaredd a thosturi : dyro inni'n drugarog y fath fesur o'th ras, fel y bo i ni, gan redeg ar hyd ffordd dy orchmynion, dderbyn dy addewidion grasol, a'n gwneud yn gyfranogion o'th drysor nefol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Eseaia
(56.1, 6-8)

"Cadwch farn, gwnewch gyfiawnder; oherwydd y mae fy iachawdwriaeth ar ddod, a'm goruchafiaeth ar gael ei datguddio.

A'r dieithriaid sy'n glynu wrth yr ARGLWYDD, yn ei wasanaethu ac yn caru ei enw, sy'n dod yn weision iddo ef, yn cadw'r Saboth heb ei halogi ac yn glynu wrth fy nghyfamod — dygaf y rhain i'm mynydd sanctaidd, a rhof iddynt lawenydd yn fy nhŷ gweddi, a derbyn eu poethoffrwm a'u haberth ar fy allor; oherwydd gelwir fy nhŷ yn dŷ gweddi i'r holl bobloedd," medd yr Arglwydd DDUW, sy'n casglu alltudion Israel. "Casglaf ragor eto at y rhai sydd wedi eu casglu."

Y Salm
(67)

Bydded Duw yn drugarog wrthym a'n bendithio, bydded llewyrch ei wyneb arnom,

er mwyn i'w ffyrdd fod yn wybyddus ar y ddaear, a'i waredigaeth ymysg yr holl genhedloedd. Bydded i'r bobloedd dy foli, O Dduw, bydded i'r holl bobloedd dy foli di.

Bydded i'r cenhedloedd lawenhau a gorfoleddu, oherwydd yr wyt ti'n barnu pobloedd yn gywir, ac yn arwain cenhedloedd ar y ddaear. Bydded i'r bobloedd dy foli, O Dduw, bydded i'r holl bobloedd dy foli di.

Rhoes y ddaear ei chnwd; Duw, ein Duw ni, a'n bendithiodd. Bendithiodd Duw ni; bydded holl gyrrau'r ddaear yn ei ofni.

Darlleniad o Rufeiniaid
(11.1-2a, 29-32)

Yr wyf yn gofyn, felly, a yw'n bosibl fod Duw wedi gwrthod ei bobl ei hun? Nac ydyw, ddim o gwbl! Oherwydd yr wyf fi yn Israeliad, o linach Abraham, o lwyth Benjamin. Nid yw Duw wedi gwrthod ei bobl, y bobl a adnabu cyn eu bod.

Oherwydd nid oes tynnu'n ôl ar roddion graslon Duw, a'i alwad ef. Buoch chwi unwaith yn anufudd i Dduw, ond yn awr, o ganlyniad i'w hanufudd-dod hwy, yr ydych wedi cael trugaredd. Yn yr un modd, o ganlyniad i'r drugaredd a gawsoch chwi, y meant hwy hefyd wedi anufuddhau yn awr, fel mai derbyn trugaredd a wnânt hwythau. Y mae Duw wedi cloi pawb yng ngharchar anufudd-dod, er mwyn gwneud pawb yn wrthrychau ei drugaredd.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Mathew
(15. [10-20,] 21-28)

[Galwodd y dyrfa ato a dywedodd wrthynt, "Gwrandewch a deallwch. Nid yr hyn sy'n mynd i mewn i enau rhywun sy'n ei halogi, ond yr hyn sy'n dod allan o'i enau, dyna sy'n halogi rhywun."

Yna daeth ei ddisgyblion a dweud wrtho, "A wyddost fod y Phariseaid wedi eu tramgwyddo wrth glywed dy eiriau?"

Atebodd yntau, "Pob planhigyn na phlannodd fy Nhad nefol, fe'i diwreiddir. Gadewch iddynt; arweinwyr dall i ddeillion ydynt. Os bydd rhywun dall yn arwain rhywun dall, bydd y ddau yn syrthio i bydew."

Dywedodd Pedr wrtho, "Eglura'r ddameg hon inni."

Meddai Iesu, "A ydych chwithau'n dal mor ddi-ddeall? Oni welwch fod popeth sy'n mynd i mewn i'r genau yn mynd i'r cylla ac yn cael ei yrru allan i'r geudy? Ond y mae'r pethau sy'n dod allan o'r genau yn dod o'r galon, a dyna'r pethau sy'n halogi rhywun. Oherwydd o'r galon y daw cynllunio drygionus, llofruddio, godinebu, puteinio, lladrata, camdystiolaethu, a chablu. Dyma'r pethau sy'n halogi rhywun; ond bwyta â dwylo heb eu golchi, nid yw hynny'n halogi neb.]"

Aeth Iesu allan oddi yno ac ymadawodd i barthau Tyrus a Sidon. A dyma wraig oedd yn Ganaanëes o'r cyffiniau hynny yn dod ymlaen a gweiddi, "Syr, trugarha wrthyf, Fab Dafydd; y mae fy merch wedi ei meddiannu gan gythraul ac yn dioddef yn enbyd." Ond nid atebodd ef un gair iddi.

A daeth ei ddisgyblion ato a gofyn iddo, "Gyr hi i ffwrdd, oherwydd y mae'n gweiddi ar ein hôl."

Atebodd yntau, "Ni'm hanfonwyd at neb ond at ddefaid colledig tŷ Israel."

Ond daeth hithau ac ymgrymu iddo gan ddweud, "Syr, helpa fi."


Atebodd Iesu, "Nid yw'n deg cymryd bara'r plant a'i daflu i'r cŵn."

Dywedodd hithau, "Gwir, syr, ond y mae hyd yn oed y cŵn yn bwyta o'r briwsion sy'n syrthio oddi ar fwrdd eu meistri."

Yna atebodd Iesu hi, "Wraig, mawr yw dy ffydd; boed iti fel y mynni." Ac fe iachawyd ei merch o'r munud hwnnw.

Defynddir gweddi ôl-ynglyd

Dduw pob trugaredd, rydym ni dy bobl ffyddlon wedi dathlu'r un aberth hwnnw sy'n dwyn ymaith ein pechodau ac yn dod â maddeuant a thangnefedd : trwy ein cymun, cadw ni'n ddiysgog ar sylfaen yr efengyl a chadw ni rhag pob pechod; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN.



Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddiâu Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmu trwy ganiatâd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004 Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.